

Daeth ail gam y rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2023. Bydd rhai busnesau fferm yn gweld ychydig iawn o effaith neu ddim effaith o gwbl, a bydd busnesau eraill angen amser a chefnogaeth er mwyn gallu cydymffurfio. Bydd y dull gweithredu graddol yn rhoi amser i chi baratoi a gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

Peidiwch â chynhyrfu, mae pob fferm yn wahanol, felly cymerwch yr amser i ddarllen y canllawiau sydd ar gael yn fanwl, cyn gwneud unrhyw ragdybiaethau am yr effaith ar eich busnes.

Mae cymorth ar gael gan Cyswllt Ffermio a'r Llinell Gymorth Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS.

Mewn ardaloedd a oedd wedi'u lleoli o fewn Parth Perygl Nitradau, nid oes dull gweithredu graddol ac mae'r holl reolau wedi bod yn berthnasol o 1 Ebrill 2021.

Cynllunio rheoli maetholion

Defnyddir y Cynllun Rheoli Maetholion (NMP) i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ond mae hefyd yn arf pwysig i reoli'r defnydd gorau posibl o wrteithiau nitrogen i'ch daliad a all wella twf cnydau, lleihau'r defnydd o wrtaith a weithgynhyrchwyd a lleihau'r risg o lygredd.

- Ni ddylai mewnbynnau gwrtaithe fod yn fwy na therfynau cnydau penodedig.
- Mae terfyn uchaf o 250kg/ha ar gyfer nitrogen yn berthnasol i wasgaru tail organig ar unrhyw gae am unrhyw gyfnod o 12 mis.
- Cofnodi mewnforio neu allforio tail organig.
- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu templedi ar gyfer cofnodi Cynlluniau Rheoli Maetholion, ond gallwch gadw eich cofnodion eich hun ar yr amod bod meini prawf y rheoliadau'n cael eu bodloni.
- Rhaid cadw copïau o Gynlluniau Rheoli Maetholion am o leiaf 5 mlynedd a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio os gofynnir amdanynt.

Storio tail organig (ac eithrio slyri)

Rhaid storio tail organig (ac eithrio slyri); neu unrhyw sarn sydd wedi'i halogi ag unrhyw dail organig naill ai:

- Mewn llestr slyri
- Mewn adeilad dan do
- Ar arwyneb anhydraidd (mae hylif sy'n deillio o dail solet sydd wedi'i storio ar arwyneb anhydraidd yn cael ei gyfrif fel slyri a rhaid ei ddal yn briodol)
- Mewn safle cae dros dro

Safleoedd cae dros dro

Ni ddylid lleoli safleoedd cae dros dro:

- Mewn unrhyw safle unigol am fwy na 12 mis yn olynol neu'r un lle ag un a adeiladwyd o fewn y 2 flynedd ddiwethaf
- Mewn cae sy'n agored i lifogydd neu fynd yn ddwrlawn
- O fewn 10m i ddŵr wyneb neu ddraen daear, o fewn 30m i gwrs dŵr ar dir y nodwyd bod ganddo inclein sy'n fwy nag 20% neu o fewn 50m i bistyll, ffynnon neu dwll turio.

Mapiau risg

Rhaid cynhyrchu mapiau risg a gellir eu cynllunio i'ch galluogi i gydymffurfio â mesurau eraill yn ogystal â'r Rheoliadau hyn. Rhaid i chi ddiweddarar'r map risg gydag unrhyw newidiadau a rhaid i chi gadw pob copi o'ch map risg, am o leiaf 5 mlynedd.

Gallwch weld taflen ffeithiau Cyswllt Ffermio ar fapiau risg neu ganllawiau Llywodraeth Cymru i nodi'r rhestr lawn o nodweddion sydd eu hangen ar gyfer y map risg.

Rheoli gwasgariad gwrtaiith nitrogen

Rhaid i unrhyw berson sy'n gwasgaru gwrtaiith nitrogen wneud hynny mewn modd mor gywir â phosibl.

- Rhaid i beiriannau gwasgaru slyri fod â thafwybr gwasgaru isel sydd o dan 4m o'r ddaear.
- Gellir defnyddio peiriannau gwasgaru gyda thafwybr o fwy na 4m o'r ddaear ar dir sydd â risg isel o ddŵr ffo a lle mae'r peiriant yn gwasgaru o dan 2mm yr awr.

O 30 Ebrill 2023 - Cyfyngiad nitrogen ar gyfer gwasgaru tail da byw

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu estyniad 3 mis i weithredu'r terfyn blynyddol 170kg/ha ar gyfer nitrogen o dail da byw ar gyfartaledd dros y daliad, naill ai wedi'i ysgarthu'n uniongyrchol gan yr anifail neu drwy wasgaru hyd at 30 Ebrill 2023. Bydd y gofyniad yn berthnasol o 30 Ebrill 2023.

Ni fydd mesurau eraill 1 Ionawr 2023 yn cael eu heffeithio.

CYMORTH SYDD AR GAEL:

- Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermio
- Llinell Gymorth Rheoliadau Llygredd Amaethyddol a weithredir gan ADAS:
01974 847 000
- Ceir canllawiau manwl ar wefan Llywodraeth Cymru:
llyw.cymru/rheoli-tir